Rhif 14

# Yr Hen Wlad

Chwefror 1997

## At Gymry Patagonia

**"Mi wellaf pan ddaw'r gwanwyn"**
**yw un o'r llinellau mewn cerdd gan T. Rowland Hughes ac mi roes rhywbeth dro a sbonc ynom ninnau y dydd o'r blaen pan welsom ddegau lawer o eirlysiau wedi ymwthio i'r golwg mewn coedlan/gwinllan ym Methesda. Y cyfan megis gwyrth ar ôl wythnosau o dywydd barrug a rhew.**

**Meddai Cynan gynt pan welodd eirlysiau:**

**"Oll yn eu gynau gwynion,**
**Ac ar eu newydd wedd,**
**Yn debyg idd eu Harglwydd**
**Yn dod i'r lan o'r bedd."**

**David George Jones o Lanarthne piau'r geiriau gwreiddiol a gwyddai Cynan hynny yn dda ond na fedrai feddwl am gymhariaeth berffeithiach i ddisgrifio'r deffroad gwyrthiol hwn ym myd natur.**

**Mae'r tywydd yn fwy gaeafol - yn wyntog a glawog ac oer erbyn hyn, ond 'does wahaniaeth o gwbl bellach, mi wyddom fod y dihuno wedi dechrau a:**

**"Daw gwanwyn pêr o'r pridd**
**A bydd merched mewn hetiau swel."**

**'Rydych yn dal i ymateb yn dda i'r gystadleuaeth. Y cwestiwn cyntaf roes drafferth i'r rhan fwyaf. Yr ateb pendant clir oedd: "Robin Goch" ac ystyr "boddia" oedd rhoi pleser neu foddhad. Yr ateb i'r wythfed cwestiwn oedd "trywsus". Yr enw cywir cyntaf a ddaeth o'r het y tro hwn oedd Alwen Green, Trevelin.**

*Golygyddion: Guto a Marian Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU*

---

*Cadwn gof am a fu, ystyriwn am y sydd,*
*a barnwn am a ddaw.* Dihareb

# Maent ar eu ffordd...

Hazel Charles Lewis o Lanelli, Dewi Wyn Jones o Aberdaron a Siân Eleri Hughes o Ruddlan fydd y tri athro a benodwyd gan y Swyddfa Gymreig a'r Cyngor Prydeinig i dreulio blwyddyn yn Y Wladfa.

Hazel fydd yn Esquel, Dewi yn Nhrelew ac Eleri yn y Gaiman.

Bydd Hazel a Dewi yn cychwyn ar eu taith ar Fawrth 5 ac Eleri yn eu dilyn ymhen pythefnos gan y bydd yn gweithio hyd ddiwedd y tymor fel Darlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

## Dydd Gwyl Ddewi

Sir Fôn yw'r sir gyntaf yng Nghymru i benderfynu y bydd Dydd Gŵyl Ddewi eleni, sef Sadwrn Mawrth 1 1997, yn Ddydd Gŵyl swyddogol.

Yn ôl *Yr Herald,* Ionawr 25, eleni, ymateb Alun Ffred Jones, Arweinydd Cyngor Sir Gwynedd, i'r syniad oedd: "Teimlad y Pwyllgor Addysg oedd fod ysgolion y sir eisoes yn dathlu Gŵyl Ddewi trwy Eisteddfod a bod hynny'n fwy buddiol na gwyliau."

## Clefyd y Gwartheg

Mae'r gwaharddiad i allforio cig eidion o Brydain i Ewrop a gwledydd eraill yn dal mewn grym - yn sgîl y clefyd BSE ("clefyd y gwartheg gwallgof").

Yn y cyfamser mae'r farchnad gartref wedi gwella gan fod y cyhoedd wedi cael sicrwydd fod y bwydydd iawn yn cael eu rhoi i'r gwartheg bellach. Er hynny mae'r ffermwyr yn gorfod anfon y gwartheg sydd dros ddeng mis ar hugain oed i gael eu llosgi a'r llywodraeth yn eu digolledu hyd at tua thrichwarter eu gwerth. Mae'n drist iawn fod ffermwyr yn gorfod difa anifeiliaid holliach fel hyn ond yn ôl y llywodraeth dyma'r unig ddull o ddarbwyllo gwledydd eraill fod Prydain yn sicrhau nad yw'r afiechyd yn parhau yn y gadwyn fwyd.

# Mewnlifiad

**Mae cymunedau Cymraeg dan fygythiad unwaith eto oherwydd mewnlifiad.**

**Dywed Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fod cymunedau Cymraeg yn wynebu mewnlifiad ar yr un raddfa â'r hyn a ddigwyddodd yn yr wythdegau, oherwydd cynnydd mewn prisiau tai.**

Yn ôl adroddiadau newydd bydd prisiau tai yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr yn codi 15 y cant yn 1997 tra bydd prisiau tai yng Nghymru yn codi rhyw chwech i wyth y cant.

Rwan mae'r Gymdeithas wedi lansio ymgyrch o'r newydd i geisio tynnu sylw at yr angen am Ddeddf Eiddo i ddiogelu ein cymunedau Cymraeg.

O'r *Herald,* Ionawr 3 1997

# Eli gwyrthiol

Fe fydd hen begors trwy Gymru yn heidio am eu fferyllfeydd yr wythnos yma, wrth i'r cynnyrch cyntaf erioed sydd wedi ei brofi i atal y croen rhag crebachu fynd ar y farchnad.

Dengys profion gwyddonol ... fod yr eli Servital yn gallu cynyddu trwch y croen o fwy na chwarter mewn tair wythnos yn unig.

Bu meddygon yn Llundain yn cynnal arbrofion gyda gwirfoddolwyr yn eu pumdegau, gan ganfod eu bod o'r diwedd yn delio â thriniaeth y bu pobol yn ysu am ei gweld ers cenedlaethau.

Yn anffodus, fe fydd yr eli yn costio £75 am botyn 50ml, ond os ydych am fuddsoddi mewn cyfle i edrych yn iau yna fe ellir ei brynu yn y siopau cyn hir.

O'r *Cymro,* Ionawr 22 1997

---

Dymuniadau mwyn ehedant,
Heibio i lawer drws y galwant:
Ni chaiff neb un ddimai ganddynt -
Ond mae pawb yn dlotach hebddynt.
Elfed (1860-1953)

# Ordeinio Merched



Llun: Yr Herald

'Roedd Ionawr yr unfed ar ddeg eleni yn ddiwrnod hanesyddol i'r Eglwys yng Nghymru pan ordeiniwyd merched yn offeiriaid am y tro cyntaf. Cafodd 70 o ddiaconesau eu hordeinio a byddant yn awr yn gallu cysegru bara a gwin y cymundeb a gweini'r sagrafennau.

Un o'r rhai cyntaf i gael ei hordeinio oedd Y Parchedig Kathy Sandells Rees, sy'n Gaplan yn Ysbyty Gwynedd...

Treuliodd dair blynedd ym Mhrifysgol Caerdydd yn astudio Diwinyddiaeth ac yna mewn Coleg Diwinyddol yn Birmingham i'w hyfforddi yn y weinidogaeth, gan dreulio rhai o'i blynyddoedd cyntaf yn un o Gaplaniaid y carchar lleol yno. Yn 1992 ordeiniwyd hi yn Ddiacones ac yna penodwyd hi yn gurad cynorthwyol i blwyf Caergybi cyn symud ymlaen i Ysbyty Gwynedd yn 1994.

O'r *Herald,* Ionawr 18 1997

# Cyfieithwyr

Mae dros 100 o bobol yng Nghymru'n ennill eu bara menyn wrth gyfieithu fel y bo pob dogfen i'w chael yn Gymraeg a Saesneg. Y peryg mawr bellach oedd i ambell un fedrai siarad y ddwy iaith gredu ei fod yn alluog fel cyfieithydd a rhoi i ni erthyl o gyfieithiad. Dichon eu bod yn gywir fel gair am air ond tipyn o gamp oedd cael synnwyr ohonynt.

Gobeithir trefnu cyrsiau ar gyfer y gwaith fel y ceir cysondeb, safon ac ystwythder mynegiant. Yr hyn a fu'n gyfrifol am y newid aruthrol oedd y Ddeddf Iaith, addysg ddwyieithog, y radio a'r teledu.

# Ymbelydredd

Mae hi bellach yn dair blynedd ar ddeg er pan ffrwydrodd atomfa niwclear Chernobyl gan wasgaru ymbelydredd i wledydd y gorllewin.

Mae ardaloedd Llanuwchllyn, Rhyd-y-main, Penmachno ac Ysbyty Ifan yn dal i ddioddef ac ni chaiff y ffermwyr yno symud eu defaid heb ganiatâd swyddogol y llywodraeth. Effeithia hyn ar 160 o ffermydd a rhannau o 220 o rai eraill, a chyfanswm y defaid yw 200,000. Telir rhywfaint o iawndal i'r ffermwyr am eu colledion.

# Priodas Aur

Bydd y Frenhines a Dug Caeredin yn dathlu eu priodas aur yn ystod yr haf eleni ac maent wedi estyn gwahoddiad i bawb ym Mhrydain a briododd yn 1947 i barti mawr ym Mhalas Buckingham yn Llundain. O fewn ychydig wythnosau cafwyd 30,000 o geisiadau, 300 ohonynt o Sir Forgannwg. Gan mai lle i 4,000 yn unig sydd ganddynt bydd y trefnwyr yn tynnu "byrra'i docyn" am le.

# Dim arian ar gyfer ysbytai


Mae Aelod Seneddol Arfon, Dafydd Wigley, wedi condemnio penderfyniad y llywodraeth i neilltuo £60 miliwn o arian cyhoeddus i wneud llong bleser newydd i'r Frenhines.

"Rwy'n ei chael hi'n anodd i ddeall rhesymeg gwario'r fath arian ar gwch bleser ond sy'n methu a dod o hyd i'r arian i godi ysbytai newydd fel yr ysbyty newydd ym Mhorthmadog," meddai.

O'r *Herald*,.Chwefror 8 1997

*Llunio'r gwadn fel bo'r troed.* Dihareb

# Ailagor y felin



Llun: Y Cymro

Ychydig dros dair blynedd yn ôl fe ddaeth adeiladwr, athro ysgol a gŵr busnes at ei gilydd i atgyweirio hen felin yn y Felindre ger Llangyfelach ger Abertawe. Erbyn hyn mae yno dŷ te a thŷ bwyta, llofft ar gyfer arddangosfeydd o grefftau lleol, a chynlluniau i ddarparu bwyd Cymreig gan ddefnyddio hen rysetiau yn ogystal â chynnal ambell i Noson Lawen yn y Felin. Cafwyd peth cymorth ariannol gan Ymddiriedolaeth y Tywysog Siarl.

O'r *Cymro*, Ionawr 22 1997

# *Toriadau*

Pwyllgor Addysg Cyngor Sir Ynys Môn yw'r awdurdod diweddaraf i dderbyn y bydd yn rhaid i ysgolion yr ynys wynebu toriadau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dywedodd Cadeirydd y Cyngor y byddai'r sefyllfa yn llawer gwaeth pe bai'r Cyngor heb lwyddo i arbed £500,000 y llynedd trwy beidio â llenwi 31 o swyddi yn swyddfeydd y Sir.

O'r *Cymro*, Ionawr 22 1997

**Dyn tenau**

Cyrn ac esgyrn a gwasgod - a llodrau
Lledrith ar ddisberod;
A'r lle 'roedd efe i fod
Y mae gwisg am ei gysgod. (Mafonwy)

# Benthyca peiriannau

Mae criw o ffermwyr ym Môn wedi dod at ei gilydd i geisio ffurfio cwmni cydweithredol newydd fel y gall ffermwyr a chontractwyr rannu adnoddau gyda'i gilydd.

Gobaith y cwmni yw y gellir creu rhestr o beiriannau, gwasanaethau a llafur sydd gan bob aelod ac y bydd rheolwr y cylch yn cysylltu ag aelodau sydd angen peiriant neu wasanaeth ag aelodau eraill sydd â pheiriant neu wasanaeth i'w gynnig.

Bydd y cwmni yn derbyn cymorth ariannol gan Menter Môn sydd wedi clustnodi £30,000 ar ei gyfer.

Mae'r math hwn o gwmni cydweithredol eisoes wedi ffynnu yng ngwledydd Ewrop a rhannau eraill o Brydain.

O'r *Herald*, Ionawr.11 1997

# Dim hawl

Mae pâr o Loegr newydd ddarganfod nad ydynt yn briod er iddynt gael gwasanaeth priodas mewn eglwys.

Sylweddolir erbyn hyn mai'r sawl a weinyddodd y seremoni oedd myfyriwr o Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan ac yntau heb ei ordeinio. Ei eglurhad oedd i'r Offeiriad a oedd i fod i weinyddu'r briodas fethu â chyrraedd mewn pryd ac iddo yntau orfod dewis naill ai wneud y gwaith yn ei le neu ohirio'r briodas. Mae'n ofynnol yn awr i'r ddau "ailbriodi" ac mae'r pâr ifanc yn dwyn achos llys yn erbyn Eglwys Loegr.

# O Iwerddon

Ymwelodd Arlywydd Iwerddon, Mary Robinson â Chymru yn ddiweddar. Daeth ei thaith i ben yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, lle y dywedodd ei bod yn gobeithio y bydd modd creu rhagor o gysylltiadau rhwng y ddwy wlad.

# Ehangu ar y gweill



Josephine a John Baker Llun: *Yr Herald*

Pan ddechreuodd gwraig o Dalwrn, Ynys Môn, wau dillad ar beiriant bach yn 1977 feddyliodd hi erioed y byddai erbyn heddiw yn rhedeg busnes llewyrchus o'i chartref ac yn cyflogi chwech o weithwyr i'w helpu.

Mae Josephine Baker yn enw cyfarwydd iawn yn y byd dillad gwlân. Mae'n cynhyrchu gwaith gwau drud a gwaith pris canolig, gan gyflenwi catalogau bychain a siopau annibynnol ym Mhrydain a thramor.

"Pan oedd y plant yn fychan, 'roedd hi'n anodd i mi gael gwaith y tu allan i'r cartref felly prynais beiriant gwau bach a dechreuais werthu dillad," meddai Mrs Baker.

"Penderfynodd fy ngŵr John, a oedd yn athro, y buasi'n hoffi dod yn bartner, ac fe ddaru ni brynu peiriant mawr ac felly datblygodd y cwmni," eglurodd.


Mae'r ddau yn awr yn ystyried ehangu eu busnes drwy gynhyrchu nwyddau ar gyfer y cartref.

O'r *Herald*, Chwefror 15 1997

# Etholiad

Mae oes y Llywodraeth bresennol, dan arweiniad John Major (dros y blaid Dorïaidd - a fu mewn grym am ugain mlynedd), yn prysur ddirwyn i ben a bydd yr Etholiad Cyffredinol yn debygol o fod ym mis Mai.

# Pwy yw'r gŵr piau'r gerdd?



Llun: *Cymru* (O.M. Edwards) Cyfrol 4, 1893

Pwy, yn wir? Dyma'r tro cyntaf inni weld ei lun - a pha ryfedd, gan y dywedid yn 1893 mai hwn oedd yr unig lun o Ieuan ab Iago, neu Evan James. Prin fod neb yn ei gofio heddiw, wrth gwrs, gan ei fod wedi ei gladdu er 1878.

Mae ei enw - Evan James - yn sicr o ganu cloch i lawer Cymro, ac o bosib, wedi pendroni peth, y cofia mai ef yw awdur Anthem Genedlaethol Cymru - *Hen Wlad Fy Nhadau.*

Cafodd ei eni yng Nghaerffili yn 1809: gwehydd wrth ei waith a pherchennog ffatri wlân lewyrchus. Bu hefyd yn cadw'r *Ancient Druid Hotel* gerllaw Tredegar cyn symud i Bontypridd lle y bu farw.

Beth am yr alaw? Wel, James James, ei fab, a gyfansoddodd honno, a dadorchuddiwyd cofadail i'r ddau ym Mharc Ynys Angharad, Pontypridd fis Gorffennaf 1930.


Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,
Dros ryddid, collasant eu gwaed.
Gwlad! Gwlad! Pleidiol wyf i'm gwlad,
Tra môr yn fur
I'r bur hoff bau,
O! bydded i'r heniaith barhau.

# Llythyr o Loegr

At y Gwladfawyr,
Bu'n rhaid dychwelyd i Loegr cyn medru darllen am ein hymweliad â'r Wladfa a gweld ein lluniau mewn rhifyn o'r Hen Wlad....
Nid gwyliau a gawsom ond pererindod a phopeth yn berffaith. Croeso ym mhobman. Wedi darllen am y Wladfa yn Gymraeg a Saesneg 'rydym yn awr yn ailddarllen y cwbl gan sylweddoli gwroldeb y Cymry cynnar.
Yr Eisteddfod a'r Gymanfa Ganu oedd uchafbwynt ein gwyliau. Anodd credu fod y diwylliant Cymraeg a'r iaith mor fyw..... Byddwn yn ôl yn Esquel i gerdded yr Andes - ac ymweld â'r Eisteddfod yn Nhrelew cyn cyrraedd ohonom ein 75 oed.

*Marianne a John Pritchard Jones,*
*Swydd Derby, Lloegr.*

# Cyfri'r ysgyfarnogod



Mae'r ysgyfarnog yn anifail sy'n prinhau a Chymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru yn dosbarthu ffurflen - yn eu cylchgrawn *Natur* - i wneud arolwg o'r niferoedd sydd ar ôl.

Un o'r newyddion diddorol yn y cylchgrawn yw'r cyfeiriad at fwriad y Gymdeithas i gael Gwarchodfa Natur yn hen safle ffrwydron Cwmni Cookes ym Mhenrhyndeudraeth.


**Yr Ysgyfarnog**

Er ei hela, daw'r eilwaith - hen Sipsi'r
Gweundir i'w theg undaith;
Ar lwyd wâl 'r ôl dyfal daith
Drwy hen wybod dry'n obaith.

G.Robaits

# Y Cymry ar Wasgar

Y mae *Cymru a'r Byd (Undeb y Cymry ar Wasgar* gynt) wedi penodi cyfarwyddwr newydd, sef John Phillips, cyn Bennaeth Cyngor Sir Dyfed. Mae'n byw yn Llanbedr Pont Steffan.



Llun: Y Cymro

Pwrpas y mudiad yw bod yn ddolen gyswllt rhwng Cymru a'r Cymry sydd yn byw dramor, a threfnu seremoni arbennig i'w croesawu yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Y Bonwr Eryl Hughes yw eu cynrychiolydd ar Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Cymry Ariannin.

---

# Yng Nghlust y Teleffôn

**Clywsom**

- am farw Mrs Watkins, priod Major Edward Watkins, fu'n gwasanaethu yna gyda Byddin yr Iachawdwriaeth.
- y cynhelir Arddangosfa *Patagonia - Byd Natur/Cyn Hanes/Ethnograffeg* mewn Amgueddfa yn Llundain ym mis Hydref 1997.
- ganmoliaeth fawr gan bawb yma i raglenni "Cefn Gwlad" Dai Jones - Wrth Droed yr Andes ac yn y Gaiman.
- mai enillydd Gwobr Patagonia am yr erthygl orau yn *Y Wawr* yn 1996, (cylchgrawn Merched y Wawr), yw Mary Lloyd Davies y gantores o Lanuwchllyn. Ar hyn o bryd mae hi'n canu mewn opera yn yr Almaen ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn bydd yn canu yn Houston, Texas.
- fod Elvey MacDonald yn trefnu dwy daith i'r Wladfa: (a) Mawrth 7-21 1997 (b) Hydref 16-Tachwedd 4 1997.
- fod Cathrin Williams hefyd yn trefnu taith i'r Wladfa yn ystod y cyfnod Mawrth 11-Ebrill 3 1997.
- fod Mair Edwards wedi dychwelyd yn ddiogel o'r Wladfa yn ddiweddar ac yn edrych ymlaen at gael trefnu taith yn yr Hydref.
- y bydd Elvey MacDonald yn ymddeol o'i waith fel Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, tua'r Pasg eleni.

# Cystadleuaeth

## Eisteddfod Genedlaethol Cymru

### yn Y Bala 1997

**i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac yn dal i fyw yn Ariannin.**

Traethawd neu ysgrif ar y testun:

*Y Wladfa Heddiw.*

Beirniad: Dr. Robert Owen Jones

Gwobr: £150 (gan Gymdeithas Cymry Ariannin)

Y gwaith i gyrraedd Swyddfa'r Eisteddfod yn Y Bala, Gwynedd, Gogledd Cymru, erbyn Ebrill 1 1997.

---

# ???

Chwiliwch am atebion i'r canlynol yn y papur hwn. Os anfonwch atom i'r cyfeiriad a geir ar y dudalen flaen cyn Ebrill 4 1997 rhoddir eich ymgais mewn het ac enw'r sawl fydd â'r atebion cywir cyntaf gaiff gyhoeddi ei enw y tro nesaf.

1. Beth sy'n bêr?
2. Pwy sy'n cychwyn ar Fawrth 5?
3. Beth geir ar ôl LL54?
4. Beth yw'r ddwy lythyren sydd o flaen -ddwyrain?
5. Pwy fu yn Ysbyty Gwynedd?
6. Beth enilla'r cant?
7. Y nifer o swyddi na chafodd eu llenwi.
8. Pwy heblaw athro a gŵr busnes a atgyweiriodd rywle?
9. Pwy yw Mary Robinson?
10. Beth sydd mewn grym ers ugain mlynedd?